Michael Daniel Jones 1822–98

Gweinidog (A), pregethwr, Prifathro Coleg Annibynnol y Bala, ac un o ysgogwyr y Wladfa ym Mhatagonia

Y mae Michael Daniel Jones yn un o'r enwau mwyaf cyfarwydd yn hanes Cymru ac fe'i cysylltir fynychaf â Phatagonia. Dywedir ei fod yn un o'r meddylwyr mwyaf gwreiddiol a threiddgar yn ail hanner y 19eg ganrif ac mai ef oedd tad y deffroad cenedlaethol Cymreig. Pryderai'n ddirfawr am ddyfodol y genedl a cheisiodd ei diogelu trwy ddatblygu syniadaeth ynglŷn â lle cenhedloedd bychain, a thrwy ysgrifennu a gwleidydda.

Mab ydoedd i Michael a Mari Jones. Yr oedd ei dad yn weinidog yr Hen Gapel, Llanuwchllyn, ac yn cadw ysgol yn y pentref, a'i fam Mari yn wreiddiol o Gwmcarnedd, Llanbryn-mair. Ganed ef ar 2 Mawrth 1822 yn nhŷ'r Hen Gapel, ac fe dderbyniodd ei addysg gynnar yn ysgol ei dad. Pan oedd yn bymtheg oed aeth yn brentis i siop ddefnydd yn Wrecsam, ond ymadawodd ar fyrder oherwydd i brentis arall ymosod arno. Ym 1839 aeth i Goleg y Presbyteriaid yng Nghaerfyrddin i baratoi ar gyfer y weinidogaeth. Yr oedd eisoes yn dangos nodweddion arbennig fel ysgolhaig, ac wedi pedair blynedd yno aeth i Goleg Highbury yn Llundain. Aeth ar ymweliad ag America ym 1848. Yr oedd ganddo ddiddordeb mawr yn y miloedd o Gymry oedd yn ymfudo i'r wlad newydd, ac yn ystod y cyfnod hwn sylweddolodd fod y Cymry hynny'n colli eu hunaniaeth mewn amser byr. Ordeiniwyd ef yn weinidog ar eglwys Gymraeg yn Cincinnati, Ohio, ym 1848.

Pryd hynny y cydiodd y syniad am wladychfa i'r Cymry ynddo am y tro cyntaf ac fe'i mynegodd mewn llythyr maith yn *Y Cenhadwr*. Trwy gydol ei oes ei freuddwyd oedd sefydlu Gwladfa Gymreig a fyddai'n hafan i Gymry, eu crefydd, eu hiaith a'u diwylliant ac ysgrifennodd yn ddiflino i'r cylchgronau ar y pwnc. Ei weledigaeth oedd i Gymry Cymraeg ymfudo mewn niferoedd i'r un man gan ddiogelu eu Cymreictod. Ar y dechrau awgrymodd

Wisconsin, Oregon, Vancouver a hyd yn oed Palesteina fel mannau cymwys i'r arbrawf, ond yn y diwedd penderfynwyd ar Batagonia yn Ariannin. Rhoddodd gefnogaeth frwd i'r Wladfa a sefydlwyd ym 1865 pan laniodd *Y Mimosa* ym Mhorth Madryn, 28 Gorffennaf, a 150 o Gymry ar ei bwrdd. Bu'r fenter hon yn drafferth ac yn golled ariannol iddo gan iddo orfod talu'r rhan fwyaf o'r £3,000 am baratoi, llwytho a hwylio'r llong i Ariannin.

Wedi dychwelyd i Gymru fe'i sefydlwyd yn weinidog ar eglwysi Bwlchnewydd a Gibeon, Caerfyrddin. Bu farw ei dad ym 1853 a phenodwyd ef yn olynydd iddo fel prifathro Coleg yr Annibynwyr a gweinidog eglwysi Annibynnol lleol. Cychwynnodd ar ei waith yn y coleg ym 1855 gyda dim ond pedwar o fyfyrwyr. Ym 1859 priododd â Miss Lloyd, Plas-yr-hall ger Rhuthun, a chawsant bedwar o blant.

Cafodd yrfa ddigon helbulus fel Prifathro oherwydd anghytundeb ynglŷn â'r dull o lywodraethu'r coleg. Gelwid y ddadl ffyrnig hon yn "Frwydr y Ddau Gyfansoddiad" (1879–85). Dadleuai Michael D. Jones a Phlaid yr Hen Gyfansoddiad mai yn nwylo'r tanysgrifwyr y dylai'r awdurdod fod i redeg y coleg, ond mynnai Plaid y Cyfansoddiad Newydd o dan arweiniad Dr John Thomas, Lerpwl, y dylai'r gair terfynol fod gan pwyllgor o gynrychiolwyr y cyfundebau. Cyhuddai Michael D Jones nhw o Bresbyteiddio'r Annibynwyr. Yn y diwedd mabwysiadwyd y Cyfansoddiad Newydd a diswyddwyd ef fel Prifathro yn y "Pwyllgor Torri Pen" a gynhaliwyd yn Amwythig ym 1879.

Yn y diwedd unwyd y ddau goleg ym Mangor a chaniatawyd i Michael D. Jones aros yn y Bala i ofalu am fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf. Bu farw 2 Rhagfyr 1898, a chladdwyd ef ym mynwent yr Hen Gapel, Llanuwchllyn.